Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 25 Mawrth 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

## Agenda

(189)v4

1 **Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

2 **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

3 **Datganiad gan y Prif Weinidog: Datganiad Polisi am yr Iaith Gymraeg - Ymateb i Adroddiadau ar y Mentrau Iaith a Chymunedau Cymraeg (30 munud)**

**Dogfennau Ategol**
Adolygiad o Waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe
Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith - Adroddiad y Grwp Gorchwyl a Gorffen
Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012 - 2017
Adroddiad y Grwp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd

4 **Rheoliadau Atal Twyll Tai Cymdeithasol (Darganfod Twyll) (Cymru) 2014 (15 munud)**

**NDM5473 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o’r Rheoliadau Atal Twyll Tai Cymdeithasol (Darganfod Twyll) (Cymru) 2014 yn cael ei lunio yn unol â’r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Ionawr 2014.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Atal Twyll Tai Cymdeithasol (Darganfod Twyll) (Cymru) 2014
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn Unig)

5 **Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014 (15 munud)**

**NDM5472 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o’r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014 yn cael ei lunio yn unol â’r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2014.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn Unig)

6 **Dadl: Darparu Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru (60 munud)**
**NDM5474 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru i ddarparu cymunedau diogelach i ddinasyddion.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder y cynnydd yn nifer yr ymosodiadau ar griwiau tân ac achub ac effaith hyn ar sicrhau cymunedau mwy diogel.

**Gwelliant 2 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru, y Gwasanaethau Tân ac Achub a'r trydydd sector i gynnal gwerthusiad cadarn ar y cyd o ymyriadau diogelwch tân.

**Gwelliant 3 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y gwaith hanfodol y mae diffoddwyr tân yn ei wneud – a bod cymunedau Cymru yn dibynnu arnynt am lawer mwy na diffodd tân.

**Gwelliant 4 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid cael dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth tân ac achub lle mae penderfyniadau gweithredol strategol yn cael eu gwneud ar sail anghenion y gwasanaeth.

**Gwelliant 5 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynigion i edrych ar strwythur Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub i sicrhau bod y ddarpariaeth yn briodol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

7 **Dadl: Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â Thai (60 munud)**

**NDM5475 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod yr effaith negyddol y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â thai yn gallu ei chael ar bobl ac ar eu hiechyd a'u lles;

2. Yn nodi canfyddiadau ymchwil Llywodraeth Cymru "Wales Anti-Social behaviour: Policy and Practice Review" fel sail ar gyfer gweithredu pellach; ac

3. Yn galw ar sefydliadau perthnasol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i weithio gyda'i gilydd i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â thai.

Cewch weld copi o "Wales Anti-Social behaviour: Policy and Practice Review" ar y ddolen ganlynol: [http://wales.gov.uk/topics/housing-and-regeneration/publications/how-social-landlords-tackle-anti-social-behaviour/?skip=1&lang=cy](http://wales.gov.uk/topics/housing-and-regeneration/publications/how-social-landlords-tackle-anti-social-behaviour/?skip=1&lang=cy)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn credu bod polisïau a gweithdrefnau sy’n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fwyaf effeithiol pan maent yn canolbwyntio ar ymyriadau cynnar, atal a chydweithio rhwng asiantaethau.

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ym mhwynt 2, cynnwys ‘ac argymhellion allweddol’ ar ôl ‘canfyddiadau’

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus ac yn y trydydd sector yn cydweithio'n fwy effeithiol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â thai.

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y gorgyffwrdd helaeth rhwng meysydd fel tai, ymddygiad gwrthgymdeithasol, diogelwch cymunedol a phlismona, ac yn credu y byddai modd mynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy’n gysylltiedig â thai mewn ffordd fwy effeithiol pe bai pob un o'r meysydd hyn yn cael eu datganoli.

8 **Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo’r Bil Addysg (Cymru) (15 munud)**
Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo’r Bil Addysg (Cymru)

**Dogfen Ategol**

Bil Addysg (Cymru) - fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 3

Memorandwm Esboniadol

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 26 Mawrth 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 20 Mawrth 2014 i'w hateb ar 25 Mawrth 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i hyrwyddo Caerdydd fel cyrchfan fusnes ar gyfer gwasanaethau ariannol? OAQ(4)1578(FM)

2. **Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd gan fod yr adroddiad ar agweddau'r cyhoedd at ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant yn dangos yn glir gefnogaeth ar gyfer gwaharddiad? OAQ(4)1575(FM)

3. **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch sut y mae system cynllunio Cymru yn sicrhau atebion teg i etholwyr Cymru? OAQ(4)1583(FM) **TYNNWYD YNOL**

4. **Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol rhwydwaith bysiau Cymru? OAQ(4)1586(FM)

5. **Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu codi safonau i denantiaid yn y sector rhentu preifat? OAQ(4)1580(FM)

**6. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddewisiadau rhieni wrth iddynt ddewis ysgolion yn system addysg Cymru? OAQ(4)1577(FM)

**7. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ficrosglodynnu anifeiliaid? OAQ(4)1576(FM)

**8. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i fusnesau bach yn Aberafan? OAQ(4)1582(FM)

**9. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaethau y mae Maes Awyr Caerdydd yn eu darparu? OAQ(4)1571(FM)

**10. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Pa ystyriaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i lygredd sŵn yn y Bil Cynllunio arfaethedig? OAQ(4)1572(FM)

**11. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynglŷn â'r safonau iaith Gymraeg arfaethedig? OAQ(4)1584(FM)**W**

**12. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar Ofal Iechyd Parhaus y GIG? OAQ(4)1581(FM)

**13. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Beth yw goblygiadau Datganiad Cyllideb 2014 Llywodraeth y DU i Gymru? OAQ(4)1579(FM)

**14. Julie James (Gorllewin Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r seilwaith twristiaeth yn ne Cymru? OAQ(4)1573(FM)

**15. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Islwyn yn elwa ar aelodaeth barhaus o’r Undeb Ewropeaidd? OAQ(4)1574(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Dydd Mawrth 1 Ebrill 2014 a dydd Mercher 2 Ebrill 2014**
**Toriad: Dydd Llun 7 Ebrill 2014 – dydd Sul 27 Ebrill 2014**
**Dydd Mawrth 29 Ebrill 2014 a dydd Mercher 30 Ebrill 2014**
**Dydd Mawrth 6 Mai 2014 a dydd Mercher 7 Mai 2014**
*************************************************************************

**Dydd Mawrth 1 Ebrill 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Adolygiad Llywodraeth Cymru o ganlyniadau TGAU Saesneg mis Ionawr 2014 (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Cynnydd o ran Sicrhau Twf: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru (30 munud)
- Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgor ar Brisio) 2014 (15 munud)
- Cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Tai (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil Tai (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 2 Ebrill 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cynnig i ddiwygio Atodlen 1 i Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) (2010) (5 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i benodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (15 munud)

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr ymchwiliad i rywogaethau goresgynnol estron (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Aled Roberts (Gogledd Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 29 Ebrill 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Cysoni cymorth cyflogaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (30 munud)
- Dadl: Cymeradwyo 'Cynllun Hawliau Plant drafft 2014' o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (60 munud)
- Dadl: Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 (60 munud)
- Dadl: Ail adroddiad Comisiwn Silk ar ddatganoli yng Nghymru (60 munud)

**Dydd Mercher 30 Ebrill 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)

**Dydd Mawrth 6 Mai 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

- Datganiad gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon: Adroddiad y Farwnes Kay Andrews ar ddiwylliant a thlodi (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: y wybodaeth ddiweddaraf am Bennod 7 o'r Rhaglen Lywodraethu, "Cymunedau Mwy Diogel" (30 munud)

**Dydd Mercher 7 Mai 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)